## Cofnodion y cyfarfod diwethaf

**25 Medi 2018**
**Ystafell Friffio'r Cyfryngau yn y Senedd**

DRAFT

| YN BRESENNOL: | |
|---|---|
| | |
| **Bethan Sayed AC (Cadeirydd)** | Gorllewin De Cymru / Plaid Cymru |
| **Natasha Withey (Ysgrifennydd)** | Gofal |
| **Ewan Hilton** | Gofal |
| **Jacinta Tan** | Prifysgol Abertawe / BIPABM |
| **Gemma Johns** | Prifysgol Abertawe |
| **Menna Jones** | Haen 3, Arweinydd Clinigol Tîm Anhwylderau Bwyta Caerdydd a'r Fro / Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf |
| **Jo Whitfield** | Beat |
| **Tom Quinn** | Beat |
| **Catrin** | Rhiant |
| **John** | Rhiant |
| **Lee Waters AC** | Llanelli / Llafur Cymru |
| **Adam Price AC** | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr / Plaid Cymru |
| **Dr. Ahmed Darwish** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf |
| **Gerrard McCullagh** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| **Kath Whatley** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| **Kim Palmer** | EDOS |
| **Helen Missen** | Gofalwr |
| **Martin Ball** | Annibynnol I'w gadarnhau |
| **Gwenllian Dafydd** | Annibynnol |
| **Sarah Morton** | EDOS |
| | |

| Croeso ac ymddiheuriadau | Camau gweithredu |
|---|---|
| Croesawodd Bethan Sayed AC y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod y | |

| | |
|---|---|
| Grŵp Trawsbleidiol ar Anhwylderau Bwyta.<br><br>Croesawodd **BS** yr Aelodau Cynulliad Adam Price a Lee Waters a dywedodd fod Lee Waters hefyd yn cadeirio'r Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd Meddwl, gan ychwanegu ei bod yn dda cael synergedd rhwng y ddau grŵp.<br><br>**DERBYNIWYD:** Ymddiheuriadau gan yr aelodau absennol canlynol:<br><br>• Manon Lewis<br>• Caroline Winstone<br>• Iwan Williams<br>• Dr Robin Glaze<br>• Samantha Sharpe<br>• Wendy Clarke | |
| **Cofnodion y cyfarfod diwethaf** | **Camau gweithredu** |
| **CYMERADWYWYD**<br>Cofnodion y cyfarfod diwethaf. | **NW** i'w hanfon i'r Swyddfa Gyflwyno |
| **Adolygiad o'r Gwasanaeth Anhwylder Bwyta** | **Camau gweithredu** |
| Croesawodd **BS** yr adborth cadarnhaol ynglŷn â'r gwaith y mae Jacinta Tan a Gemma Johns [Prifysgol Abertawe] wedi bod yn ei wneud a nododd fod y grŵp yn edrych ymlaen at ddysgu rhagor am y gwaith hwn yn ystod y cyfarfod.<br><br>Rhoddodd **MJ** gyflwyniad a oedd yn rhoi trosolwg o'r modd y caiff gwasanaethau ar gyfer anhwylderau bwyta yng Nghymru eu trefnu ar hyn o bryd o'u cymharu â'r ffordd y'u dyluniwyd yn ôl y Fframwaith Anhwylder Bwyta yng Nghymru yn 2009.<br><br>Diolchodd **BS** i **MJ**, a nododd bwysigrwydd y Grŵp Trawsbleidiol hwn, sydd wedi bod rhan allweddol o'r gwaith lobïo a symbylu adolygiad 2016.<br><br>Gofynnodd **BS** hefyd ynghylch yr arian ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer y gwaith trosglwyddo - gan ofyn a oedd wedi'i ddyrannu i'r mannau yr oedd angen i ni eu cyrraedd. | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Cadarnhaodd **JT** fod yr arian wedi'i ddyrannu at y gwaith o bontio, fel y bwriadwyd.<br><br>Codwyd rhai pryderon na welwyd gwelliant i'r gwasanaeth hyd yma, er i'r arian gael ei ddyrannu i'r perwyl yma.<br><br>Pwysleisiodd **BS** na ellir newid y gwasanaeth cyfan ar unwaith, ac esboniodd mai dyma oedd un o'r rhesymau dros fodolaeth y grŵp; sef lobïo'r llywodraeth i wneud y newidiadau angenrheidiol.<br><br>Rhoddodd **JT** gyflwyniad yn amlinellu'r Model Adolygu Gwasanaeth Anhwylderau Bwyta sydd ar ddechrau ei lunio, yn ogystal â'r gweithdai a'r gwaith ymchwil a gynhaliwyd fel rhan o'r adolygiad a'r argymhellion a'r themâu a godwyd.<br><br>Gofynnodd **BS** p'un a oedd gan y grŵp unrhyw gwestiynau yn dilyn y cyflwyniadau.<br><br>Codwyd rhai pryderon bod y model hwn yn wahanol i unrhyw beth a ddefnyddiwyd yng Nghymru o'r blaen. Cafwyd hefyd gefnogaeth gref gan ddefnyddwyr a rhieni.<br><br>Cydnabu **JT** y pryderon ynghylch pa mor wahanol yw'r model newydd i'r hyn sydd ar waith ar hyn o bryd, gan nodi bod hyn yn gyfle i feddwl yn wahanol am y pethau nad ydynt yn gweithio ar hyn o bryd.<br><br>Mae'r model hwn yn croesawu dull newydd o weithio a hefyd yn dysgu o'r hyn sy'n gweithio mewn gwledydd eraill, heb danbrisio'r heriau sydd o'n blaenau.<br><br>Ychwanegodd **JT** ei bod yn gweithio gyda'r GIG ac yn siarad ag arbenigwyr er mwyn dysgu am y cyfyngiadau y maent yn eu hwynebu. Mae'r model hwn yn dysgu i weithio gyda'r gwasanaeth a bod o gymorth iddo hefyd.<br><br>Eglurodd **BS** y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei anfon at Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Tachwedd.<br><br>Ychwanegodd **EH** mai rôl y grŵp pan fydd yr adolygiad wedi'i gwblhau fydd goruchwylio'r gwaith o weithredu'r hyn sydd wedi'i gynnwys ynddo.<br><br>Diolchodd **BS** i JT a GJ a gofynnodd iddynt roi gwybod i'r grŵp am unrhyw ddatblygiadau a'r camau gweithredu nesaf. | JT a GJ i ddiweddaru'r grŵp ynghylch datblygiadau model yr adolygiad |

DRAFT

| Gweithio mewn Ysgolion - Cyflwyniad BIPABM | |
|---|---|
| Rhoddodd **KW** gyflwyniad ar brosiect peilot Iechyd Tîm yng Nghaerffili sy'n edrych ar iechyd meddwl, gwytnwch a lles yn yr ysgol.<br><br>Diolchodd **BS** i KW am y cyflwyniad.<br>Gofynnodd **BS** a allai'r grŵp gael y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r prosiect peilot a chynlluniau ar gyfer y dyfodol. | **KW** i ddiweddaru'r grŵp ar y mater o ddod o hyd i beilot a chynlluniau ar gyfer y dyfodol maes o law. |
| **Unrhyw fater arall** | |
| Cytunwyd y byddai'r grŵp yn aros am adolygiad JT cyn ysgrifennu at Kirsty Williams.<br><br>Diolchodd Bethan Sayed i bawb am eu presenoldeb ac awgrymodd y dylid cynnal y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr. | BS/EH i ysgrifennu at KW yn dilyn arwyddo adolygiad JT.<br><br>NW i edrych ar ddyddiadau posibl ar gyfer y cyfarfod nesaf |
| | |

DRAFT